Mae Cymorth i Ferched Cymru yn sefydliad cenedlaethol yng Nghymru sy'n cefnogi gwasanaethau arbenigol y trydydd sector sy'n gweithio i roi terfyn ar gam-drin domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.

## Eiriolwr Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

- **£27,852.00 – £29,439.00 pro rata y flwyddyn**
- **Oriau a phatrymau amrywiol ar gael, gan gynnwys gwaith llawn amser a rhan amser**
- **Oriau gwaith i gwmpasu rota 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn a fydd yn cynnwys rhai shifftiau dros nos, penwythnosau a Gwyliau Banc.**
- **Cytundebau amrywiol ar gael, i gynnwys swyddi parhaol a swydd ar gytundeb penodol i gyflenwi cyfnod mamolaeth.**
- **Rôl swyddfa yn ein swyddfa, sydd wedi'i lleoli tua 7 milltir o Gaernarfon. Rhaid bod yn barod i deithio i'r lleoliad hwnnw, ac yn gallu gwneud hynny.**

**Dyddiad cau:** Dydd Llun 25 Awst 2025
**Cyfweliadau:** Dydd Llun 1af a Dydd Mawrth 2il Medi 2025

**Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn bersonol yn ein swyddfa.**

**Swydd ddisgrifiad cryno:** Mae'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn llinell gymorth 24 awr sydd wedi ennill gwobrau ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol, a phob math arall o drais yn erbyn menywod yng Nghymru. Rydym ni'n darparu gwasanaeth gwrando a chyfeirio i oroeswyr, teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol. Yn ogystal â'n gwasanaeth ffôn, rydym hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth drwy e-bost, neges destun a gwe-sgwrs.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn aelod o dîm y Llinell Gymorth, gan adrodd i'n Rheolwr Llinell Gymorth a'n Arweinwyr Tîm Fel rhan o'r swydd, byddwch yn:

Ymateb i ymholiadau i'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a dderbyniwyd dros y ffôn, e-bost, gwe-sgwrs neu neges destun i'r canlynol:

- Darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyfeirio cyfrinachol i unrhyw un sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol a/neu unrhyw fath arall o drais yn erbyn menywod, ac i'r rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan.
- Gwerthuso ac ymateb i angen, a lleihau'r risg i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol, neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod.
- Cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at wasanaethau cymorth priodol gan ddefnyddio'r llwybrau atgyfeirio sefydledig.

Bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu.

Fel rhan o'r rôl hon, bydd disgwyl i chi weithio shifftiau ar rota 24 awr. Mae penwythnosau, shifftiau nos a gwyliau banc yn rhan angenrheidiol o'r rôl.

**Gweler pecyn y swydd am wybodaeth fanylach.**

## Manyleb person

Mae'r swydd hon yn agored i ferched yn unig ***o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn unol ag Atodlen 9, Rhan 1.*** Rydym ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein sefydliad yn lle cynhwysol i weithio.

Oes gennych chi brofiad o'r canlynol:

- Gweithio o fewn gwasanaeth cam-drin domestig, trais rhywiol, neu drais yn erbyn menywod neu debyg.
- Darparu gwasanaethau cymorth Llinell Gymorth uniongyrchol.
- Gwaith shifft, yn enwedig gwaith shifft nos.
- Diogelu oedolion a phlant.

Oes gennych chi:

- Dealltwriaeth o gam-drin domestig/trais rhywiol a'i effeithiau.
- Dealltwriaeth dda o'r sefydliadau statudol a gwirfoddol sy'n cefnogi goroeswyr.

Ydych chi:

- Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag unigolion a sefydliadau gwahanol.
- Yn wrandäwr ardderchog – gyda phwyslais ar dact, empathi, amynedd a charedigrwydd.
- Yn gallu aros yn ddigynnwrf a gwneud penderfyniadau rhesymegol o dan bwysau neu mewn sefyllfa pan fydd argyfwng.
- Yn wydn yn emosiynol gyda'r gallu i ddelio â galwadau a chysylltiadau emosiynol.
- Yn gallu blaenoriaethu llwyth gwaith a chyflawni nifer o dasgau ar yr un pryd mewn amgylchedd gwaith prysur.
- Yn drefnus, gyda'r gallu i gofnodi, adrodd ac ymateb i broblemau sy'n effeithio ar y gwasanaeth Llinell Gymorth.
- Yn gallu meithrin perthynas waith gadarnhaol gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad.
- Yn gallu cyflawni eich gwaith gweinyddol eich hun, dangos sgiliau TG da a'r gallu i ddysgu meddalwedd newydd.
- Wedi ymrwymo i'ch dysgu a'ch datblygiad eich hun, ac yn gallu ymgymryd â thasgau newydd gyda brwdfrydedd.

Os ydy hyn yn swnio fel chi, gwnewch gais gan ddefnyddio'r: https://www.surveymonkey.com/r/KHFJ9ST.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ym mhecyn y swydd sydd ar gael ar ein gwefan: Gweithio gyda ni: Cymorth i Ferched Cymru (welshwomensaid.org.uk).

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl, gallwch e-bostio ni ar recruitment@welshwomensaid.org.uk, annwilliams@welshwomensaid.org.uk neu gallwch ein ffonio ar 02920 541 551.



Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government